

Cyswllt

A Beth Mae'n Ei Olygu I Chi

Gwybodaeth i chi am eich hawliau i
gysylltu â'ch brodyr a chwiorydd,
os ydych wedi cael eich
mabwysiadu neu os ydych
chi'n derbyn gofal



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Achieving More Together /
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Canolfan
Gyfreithiol
y Plant
Children's
Legal
Centre

Mae bod yn rhan o deulu, yn ogystal â chael gwybod pwy yw eich teulu, yn rhan enfawr o'ch llesiant, eich hunaniaeth ac o bwy ydych chi. Os nad ydych yn byw gyda'ch rhieni biolegol, eich brodyr a chwiorydd, yna gall cadw mewn cysylltiad fod yn hynod bwysig.

Cyswllt yw'r gair cyfreithiol a ddefnyddir ar gyfer trefniadau a wneir ar gyfer aelodau teulu iddyn nhw gadw mewn cysylltiad. Pan fo brodyr a chwiorydd dan sylw, mae hyn yn 'gyswllt rhwng brodyr a chwiorydd'.

Efallai na fydd penderfyniad a wneir 'er eich budd pennaf' wastad yn un fyddwch yn ei ddymuno, a gall yr hyn a ddymunwch newid dros amser.

Brodyr, chwiorydd a phenderfyniadau er eich 'budd gorau'

Pan fo oedolion sy'n gyfrifol am les plant a phobl ifanc (gan gynnwys Gwasanaethau Plant, gweithwyr Cymdeithasol a Barnwyr) yn poeni am y plant mewn teulu, dylen nhw feddwl am y canlynol:

- Pa risgiau sydd i chi os byddwch yn aros yn eich teulu
- Y perthnasoedd rhyngoch chi a'ch brodyr a chwiorydd
- Beth mae pob un ohonoch chi, sy'n cynnwys eich brodyr a chwiorydd, yn ei feddwl am yr hyn ddylai ddigwydd
- Â phwy fyddai orau i chi gyd fyw â nhw ac a fydd yn bosib eich cadw gyda'ch gilydd
- Pa drefniadau cyswllt dylid eu rhoi ar waith os na allwch aros gyda'ch gilydd

Mae'n rhaid i'r oedolion, sy'n gyfrifol amdanoch chi ac am y penderfyniadau a wneir ar eich cyfer, eich cadw'n ddiogel.

Mae'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau sydd er eich '**budd pennaf**' – ac er budd pennaf **eich brodyr a'ch chwiorydd**. Mae'r pwyso a mesur hwn yn golygu y caiff gwahanol drefniadau eu gwneud ar gyfer brodyr a chwiorydd yn yr un teulu, ac felly ni fyddant yn byw gyda'i gilydd.

Efallai na fydd penderfyniad a wneir 'er eich budd pennaf' wastad yn un fyddwch yn ei ddymuno, a gall yr hyn a ddymunwch newid dros amser.

Cyswllt

Bydd trefniadau a wneir ynghylch lle dylech fyw, pwy fydd yn gofalu amdano chi, ac unrhyw beth arall sydd ei angen ar gyfer eich gofal a'ch cymorth, i gyd yn cael eu cynnwys yn eich **cynllun gofal**. Bydd y cynllun gofal hefyd yn cynnwys manylion o ran pa gyswllt ddylech ei gael gyda'ch teulu biolegol, gan gynnwys eich brodyr a'ch chwiorydd.

Mae'n rhaid i drefniadau cyswllt a weithredu, ac unrhyw newid yn ymwneud â nhw, sicrhau y byddwch chi yn ddiogel.

Mabwysiadu

Os ydych wedi cael eich **mabwysiadu**, rydych yn dod yn rhan o'r teulu mabwysiadol. Yn gyfreithiol, nid ydych yn perthyn i'ch teulu biolegol mwyach, ond er hynny, dylech gael gwybod am eich cefndir a chadw mewn cysylltiad â'ch teulu biolegol, os yw hyn yn iawn ac yn ddiogel chi.

Mae gwaith 'Taith Bywyd' gyda gweithwyr cymdeithasol a gofaluwr yn un ffordd y gallwch gael gwybod am eich cefndir. Ynghyd â'ch gwaith taith bywyd, bydd cynllun ar waith ar gyfer cynnal cyswllt gyda'ch teulu biolegol. Bydd hyn yn cynnwys fel arfer '**cyswllt anuniongyrchol**' – a elwir yn aml yn 'gyswllt blwch llythyrau' – sydd wedi ei seilio ar gyfnewid llythyrau.

Diben y cyswllt anuniongyrchol yw eich helpu chi i ymgartrefu â'ch teulu mabwysiadol a'ch amddiffyn rhag risgiau a allai ddod o gyswllt uniongyrchol gyda'ch teulu biolegol, ond gan eich galluogi i gadw mewn cyswllt â nhw. Drwy gyswllt anuniongyrchol, gallwch gael gwybod am hanes aelodau o'ch teulu biolegol a gallant hefyd ddysgu yr un peth amdano chi. Yn y lle cyntaf, bydd y trefniadau hyn ar waith rhwng eich mabwysiadwyr a'ch rhieni biolegol a/neu frodyr neu chwiorydd. Gall eich mabwysiadwyr ddweud wrthyh pa mor aml mae'r cyswllt hwn yn digwydd; efallai y byddwch eisoes wedi cyfnewid llythyrau neu greu lluniau i anfon at eich teulu biolegol.

Os oes gennych frodyr neu chwiorydd sydd hefyd wedi eu mabwysiadu, ond mewn teuluoedd eraill, neu os ydyn nhw mewn gofal

Bydd trefniadau cyswllt weithiau yn methu, ond gallwch geisio gwneud i waith cyswllt weithio unwaith eto.

Nid yw trefniadau cyswllt yn digwydd bob tro yn y ffordd y dylen nhw. Gallant dorri am wahanol resymau, ond mae pethau y gallech eu gwneud i geisio sicrhau bod y trefniadau cyswllt yn gweithio.

maeth hirdymor, neu fathau eraill o leoliadau, efallai bydd y cynllun yn annog trefniadau **cyswllt uniongyrchol** – cyfarfodydd ac ymweliadau – gyda nhw.

Ni ellir gorfodi neb i barhau i gadw trefniadau cyswllt. Weithiau, ni fydd teuluoedd biolegol yn cadw mewn cyswllt. Yn yr un modd, er y caiff teuluoedd mabwysiadol eu hannog i gynnal y cyswllt, bydd achlysuron pan na fydd hyn yn digwydd. Efallai y bydd yn bosib i chi siarad â'ch rhieni mabwysiadol am y rheswm pam nad oes cyswllt yn digwydd neu ddweud yr hoffech i hyn newid. Os nad ydych yn teimlo'n gysurus am hyn, gall eich Asiantaeth Fabwysiadu neu eich Tîm Cymorth Mabwysiadu Rhanbarthol gynnig help a chymorth i chi.

Derbyn Gofal

Pan fo'r Awdurdod Lleol wedi cymryd rhyw fath o gyfrifoldeb dros eich lles, y term am hyn yw eich bod yn **'derbyn gofal'**.

Os ydych yn derbyn gofal, dylai'r Awdurdod Lleol hyrwyddo'r cyswllt â'ch teulu biolegol, yn ogystal â'ch brodyr a'ch chwiorydd nad sydd yn byw gyda chi. Dylai eich **cynllun gofal** egluro'r trefniadau cyswllt.

Os oes gennych gwestiynau o ran cyswllt, neu os bydd eich dymuniadau o ran cadw cyswllt yn newid, gallwch siarad â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu'r **Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA)** sydd yno i sicrhau bod eich cynllun gofal yn gweithio.

Gall eich gweithiwr cymdeithasol eich helpu i gael **cymorth eiriolaeth** i'ch helpu i gyflwyno'r sylwadau yr hoffech eu gwneud am gysylltu â'ch brodyr neu chwiorydd neu eich rhieni biolegol.

Cyfryngau cymdeithasol

Mae'n annhebygol iawn y bydd y trefniadau cyswllt yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, a all fod yn anodd eu rheoli ac mae'n bosib y byddwch mewn peryg o gael eich niweidio sef y rheswm y rhoddir y trefniadau cyswllt ar waith i atal hyn. Gall y cyswllt gyda'ch teulu biolegol fod yn gyffrous neu'n ofidus i chi – neu'r ddau. Ni ddylech deimlo pwysau i ymateb yn syth. Gallwch siarad am hyn â'ch rhieni mabwysiadol, y bobl sy'n gofalu amdanoch, eich Gweithiwr Cymdeithasol neu y SAA os oes un gennych, neu hyd yn oed ag un o'r sefydliadau a restrir yn y daflen ffeithiau hon. Byddant yn eich cynorthwyo a'ch helpu i wneud y penderfyniadau iawn o ran sut i ymateb.

Yn yr un ffordd, efallai nad y ffordd orau fydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â rhywun o'ch teulu biolegol yn uniongyrchol. Gall y person rydych yn cysylltu ag ef deimlo'n ofnus neu'n ofidus. Efallai byddwch yn rhoi eich hunan mewn peryg wrth gysylltu â rhywun yn y modd hwn. Gall yr un bobl y soniwyd amdany'n nhw uchod fod o gymorth i chi ganfod ffordd well o gysylltu a gallant hefyd eich helpu a chynorthwyo os byddwch yn gwneud cysylltiad, ond nad yw pethau yn datblygu yn y ffordd yr hoffech iddyn nhw.

Gofal gan Deulu a Ffrindiau/ Gwarchodaeth Arbennig

Weithiau, efallai y byddwch yn byw gyda rhiant neu berthynas ond yn dal i fod yn 'derbyn gofal' oherwydd bod eich teulu yn cael cymorth gan yr Awdurdod Lleol.

Fel arall, gellid gwneud trefniadau i chi fynd i fyw gydag un o'ch rhieni, perthynas arall, neu gyda ffrindiau drwy naill ai **Orchymyn Trefniadau Plant** neu **Warchodaeth Arbennig**. Unwaith y bo trefniadau ar waith, ni fyddwch yn cynnal cysylltiad parhaus gyda Gweithiwr Cymdeithasol na gyda SAA.

Os hoffech siarad am gynnal cysylltiad gyda brodyr neu chwiorydd, neu aelodau eraill o'ch teulu, y lle cyntaf i ddechrau fydd y bobl sy'n gofalu amdanoch a all esbonio rhagor am yr hyn a ddigwyddodd a'ch helpu i greu cysylltiad.



"efallai nad defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu'n uniongyrchol â rhywun o'ch teulu biolegol fyddai'r ffordd orau o gael cyswllt â nhw"

'Hawliau' a'r gyfraith

Seilir y gyfraith a'r ffordd mae'n gweithio yng Nghymru ar hawliau a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd gan bob plentyn â pherson ifanc, ac sydd wedi eu gosod yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys y canlynol:

- Yr hawl i gadw cysylltiadau teuluol (*Erthygl 8*)
- Os oes rhaid i chi gael eich gwahanu o'ch rhieni, dylech allu cysylltu â nhw fodd bynnag, os yw hyn yn ddiogel i chi, ac os dymunwch wneud hyn (*Erthygl 9*)
- Yr hawl i allu mynegi eich barn am yr hyn a ddylai ddigwydd i chi, ac i'r farn honno gael ei hystyried mewn penderfyniadau a wneir amdanoch chi (*Erthygl 12*)
- Yr hawl i gael amddiffyniad a chymorth arbennig os na allwch fyw gyda'ch teulu (*Erthygl 20*)
- Os ydych wedi eich mabwysiadu, mae'n rhaid i'r weithred hon fod er eich budd pennaf (*Erthygl 21*)

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru barchu'r hawliau hyn, pw y bynnag ydych chi – boed hynny'n unigolyn sy'n derbyn gofal, wedi eich mabwysiadu, neu os oes trefniadau eraill preifat ar waith ar eich cyfer.

Yng Nghymru, ceir y gyfraith ynghylch mabwysiadu, ac ynghylch derbyn gofal yn:

- Neddf Plant 1989
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gall y gyfraith a'r ymarfer

Gall y gyfraith a'r ffordd y caiff ei dehongli newid. Efallai bod Awdurdodau Lleol wedi delio gyda materion cyswllt yn wahanol yn y gorffennol.

Rhoddir llawer mwy o gydnabyddiaeth i berthnasod rhwng brodyr a chwiorydd y dyddiau hyn yng Nghymru nag ychydig o flynyddoedd yn ôl hyn yn oed. Seilir y wybodaeth yn y daflen ffeithiau hon ar yr hyn sy'n arfer ar hyn o bryd – 2019.

Ar ôl i chi droi'n 18 oed...

Os ydych chi wedi eich mabwysiadu

Ar ôl i chi droi'n 18, gallwch gael gafael ar wybodaeth a gwneud cais am eich tystysgrif geni wreiddiol (os nad oes copi gennych eisoes) a alle fod o gymorth i chi ddod o hyd i'ch rhieni biolegol, ac unrhyw frodyr neu chwiorydd, os nad ydych yn gwybod lle maen nhw.

Os ydych chi wedi cael eich mabwysiadu ar neu ar ôl 30 Rhagfyr 2005, mae angen i chi gysylltu â'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth eich rhoi i gael eich mabwysiadu i gael y wybodaeth hon.

Dylai'r asiantaeth fabwysiadu allu rhoi gwybodaeth i chi hefyd os ydych yn ceisio dod o hyd i frawd neu chwaer sydd wedi eu mabwysiadu.

Gallwch roi eich manylion ar y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu – neu gallwch nodi ar y Gofrestr Cyswllt Mabwysiadu nad ydych yn dymuno i'ch manylion gael eu rhannu.

www.gov.uk/adoption-records/the-adoption-contact-register

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o ran cael gafael ar eich ffeiliau neu wybodaeth arall amdanoch chi a'ch mabwysiadu, gall eich Tîm Cymorth Mabwysiadu Rhanbarthol eich helpu.

Os ydych yn derbyn gofal

Wrth i chi agosáu at eich pen-blwydd yn 18 oed, bydd eich gweithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda chi i greu Cynllun Llwybr a all gynnwys trefniadau cyswllt â'ch teulu. Byddwch hefyd yn cael cymorth gan Gynghorydd Personol a all eich helpu chi â materion cyswllt nes y byddwch yn 21 (neu'n 25 os ydych mewn addysg llawn amser).

Gall y Gwasanaethau Plant, yn ogystal ag unrhyw rai o'r sefydliadau a restrir isod sy'n berthnasol i ofal (yn hytrach na mabwysiadu), gynnig cymorth a chefnogaeth.

Am ragor o gymorth a chefnogaeth:



Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol

Bae'r Gorllewin

0300 365 2222

e-bost: enquiries@westernbayadoption.org
westernbayadoption.org

Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

0800 023 4064

e-bost: contact@adopt4vvc.org
adopt4vvc.org

Gwasanaetha Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru

01495 355753/355764

e-bost: adoption@blaenau-gwent.gov.uk
blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/mabwysiadu/mabwysiadu-a-phlant-syn-derbyn-gofal/gwasanaeth-mabwysiadu-de-ddwyrain-cymru

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

0800 085 0774/01978 295 311

northwalesadoption.gov.uk

Gwasanaetha Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

01267 46970

e-bost: adoptionenquiries@carmarthenshire.gov.uk
mabwysiaducgymru.org.uk

Adnoddau Ar-lein

Gofal Cymdeithasol Plant Cymru

Gwybodaeth am gyfraith Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru
sites.cardiff.ac.uk/childrens-social-care-law

Canolfan Gyfreithiol y Plant, Cymru

Gwybodaeth am y gyfraith a sut mae'n effeithio ar Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru
childrenslegalcentre.wales

Sefydliadau eraill a all fod o gymorth i chi

Adoption UK

02920 230319

e-bost: wales@adoptionuk.org.uk
adoptionuk.org/wales

Mae Adoption UK yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc

Voices from Care

02920 451431

e-bost: Info@vfcc.org.uk
vfcc.org.uk

Plant yng Nghymru

(029) 2034 2434

e-bost: info@childreninwales.org.uk
plantyngnghymru.org.uk

NYAS Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol:

0151 649 8700

e-bost: info@nyas.net
nyas.net

Meic

0808 80 23456

Testun SMS: 84001

IM/Sgwrsio ar-lein: www.meic.cymru
meiccymru.org

TGP Cymru

029 2039 6974

e-bost: admin@tgpcymru.org.uk
tgpcymru.org.uk

Sefydliad Maethu a Mabwysiadu Cymru

02920 761155 / 01745 336336

afacymru.org

Comisiynydd Plant Cymru

01792 765600

e-bost: post@complantcymru.org.uk
childcomwales.org.uk



Gwasanaeth
Mabwysiadu
Cenedlaethol

National
Adoption
Service

Achieving More Together /
Cyllawni Mwy Gyda'n Gilydd

Canolfan
Gyfreithiol
y Plant
Children's
Legal
Centre

Mae'r ffeithlen hon wedi ei pharatoi mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Chanolfan Gyfreithiol Plant Cymru. Mae wedi ei hysgrifennu ar sail y gyfraith a pholisi fel ag y meant ym mis Gorffennaf 2019. Mae wedi ei fwriadu fel canllaw ar gyfraith cyswllt yn gyffredinol. Os oes angen cyngor ar eich sefyllfa chi yn benodol, mae'n bosib y gall y sefydliadau a restrir yn y ffeithlen eich helpu.